**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y 6ed o Fehefin, 2024 am 7:00 yr hwyr.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwiylm Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) a Chynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan buddiant: | Richard Parry – Eitem 12<br>Clifford Williams – Eitem 14<br>Megan Lloyd Williams – Eitem 10 ac Eitem 15<br>Gwilym Evans – Eitem 10<br>Cynghorydd June Jones – Eitem 7<br>Cynghorydd Stephen Churchman – Eitem 7 |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | MJ yn cynnig ac RP yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Etholiad:</u> Clerc wedi cysylltu i ofyn am ddiweddariad neu ddatrysiad parthed yr anfoneb sydd yn parhau i fod yn ddyledus gennym. Heb dderbyn ymateb.<br><br><u>Archwiliad:</u> Adroddwyd fod y llyfrau ar ffurflen flynyddol wedi ei gwblhau a'i ddychwelyd gan yr Archwilydd Mewnol.<br><br><u>Hwb Eifionydd:</u> Dywedodd y Clerc ei bod wedi gwneud cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Does dim ateb hyd yma ond maent dal i fod ag amser i ymateb. |
| 7 | Mynwentydd | Ymunodd IE hefo'r cyfarfod<br><br><u>Rheolau Ailgylchu Newydd</u> - Gadawodd y Cynghorydd June Jones a Stephen Churchman yr ystafell wrth drafod ac yn gwneud penderfyniad ar y mater yma.<br><br>Cyflwynwyd meintiau a phrisiau gwahanol gan dri chwmni: Veolia, Williams a Williams Cyf a Chyngor Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | <u>Penderfyniad:</u> Cael bin gwastraff cyffredinol (770 litr) a phlastig (770 litr) i Fynwent Bethel gan gwmni Williams a Williams Cyf gan mai hwy oedd y rhataf.<br><br>GEH yn cynnig a JT yn eilio.<br><br>Ymunodd Cynghorydd June Jones a Stephen Churchman yn ôl hefo'r cyfarfod.<br><br><u>Mynwent Bethel</u><br><br>Adroddwyd fod y gwair angen ei dorri yn y fynwent. Y contractwr ar wasanaeth rheithgor wythnos yma ac felly methu gwneud toriad tan y penwythnos.<br><br>Cafwyd cyfarfod yn y fynwent rhwng MLW a'r contractiwr i drafod y rhan gwaelod wrth y wal a'r llwybr. Soniwyd mai "Ribwort Plantain" yw'r chwyn sydd yn tyfu yno ac mae'r contractiwr am wneud ymholiadau parthed y chwyn laddwr gorau i'w ddefnyddio.<br><br>Mae'r llwybr angen sylw yn y fynwent hefyd gan fod yna chwyn yn tyfu drwy'r craciau ac yn creu perygl posib. Awgrymwyd fod yna ddau gynghorydd yn ymweld â'r fynwent i weld beth sydd angen ei wneud – JT a JJ i ymweld.<br><br><u>Mynwent Prenteg</u><br><br>Adroddwyd bod cwyn wedi'i dderbyn am gyflwr y ffordd i'r fynwent. GH yn cynnig bod yna dri chynghorydd yn ymweld ar fynwent. MLW yn eilio. Y cynghorwyr sydd i ymweld yw GEH, EE (Bryncir) a'r Cynghorydd June Jones.<br><br>Soniwyd nad oedd y gwair wedi cael ei godi a'i glirio ar ôl y toriad diwethaf. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr. |
| 8 | Llwybrau Cyhoeddus | Adroddwyd bod rhai o'r llwybrau angen eu torri. Soniwyd yn arbennig am lwybr Cambrian Terrace yng Ngarndolbenmaen. Dywedodd y Clerc mai ym Mehefin mae'r toriad cyntaf yn cael ei wneud fel rheol. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Pentrefelin:</u> Adroddwyd nad yw'r rhododendrons ger y gyffordd o dan bont rheilffordd i'r ffordd fawr o Dreflys wedi cael sylw. Clerc wedi adrodd am hyn ar ôl y cyfarfod diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bryncir: Ochrau gwrych Station Cottage wedi ei dorri ond heb wneud y top.<br><br>EE wedi cael sgwrs gyda Swyddog o'r Asiantaeth Cefnffyrdd parthed cyffordd Glandwyfach. Adroddwyd fod yna gynllun ar y gweill ar gyfer y gyffordd.<br><br>Arwyddion ffordd ar gau yn dal i fyny ar y gyffordd er bod y ffordd yng Nghricieth wedi ail agor ar y 5ed o Fehefin. Adroddwyd hefyd fod yr arwyddion yma yn cael eu gosod mewn llefydd sydd yn gamarweiniol i ddefnyddwyr y ffordd. Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd os oes posib adolygu ble mae'r cwmnïau dŵr/nwy ayb yn gosod yr arwyddion yma.<br><br>Penmorfa: Adroddwyd fod yna lanast a bod cyflwr y ffordd o Benmorfa i Bentrefelin yn wael. GEH wedi cysylltu hefo Adrian o Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ac wedi gofyn iddo am ddod allan i weld.<br><br>Golan: Tyfiant coed ar ffordd Ymwlch. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Garndolbenmaen:<br><br>Adroddwyd fod difrod wedi ei wneud i wal ar y lôn gul o Dŷ Cae Aber am Berth Ddu gan fan Dŵr Cymru. Y Cynghorydd Stephen Churchman wedi cysylltu hefo Dŵr Cymru ac maen yn edrych i mewn i'r mater. Mae hefyd wedi cysylltu hefo Andrew Gregson o Adran Draffig Cyngor Gwynedd parthed y sefyllfa arwyddion.<br><br>Adroddwyd fod yna goeden wedi disgyn ar y gyffordd ger Madiha sydd yn effeithio ar welededd y gyffordd. Y Cynghorydd Stephen Churchman wedi cael sgwrs gyda Dylan o'r Asiantaeth Cefnffyrdd.<br><br>Adroddwyd fod llawer o'r adlewyrchon ar y ddwy gyffordd yng Ngarndolbenmaen wedi eu difrodi. Clerc i adrodd am hyn unwaith yn rhagor.<br><br>Mae yna goeden yng Nghoed Tan y Bryn yn gwyro i'r ffordd ac angen ei dorri. Adroddodd y Clerc ei bod wedi adrodd am hyn o'r blaen i'r "Woodland Trust" ac y byddai yn dilyn y mater i fyny. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Soniwyd fod signal ffôn yn ofnadwy yng Ngarndolbenmaen ers tro.<br><br><u>Prenteg:</u> Arwydd ffordd wedi cau ar bont Aberglaslyn yn gamarweiniol. Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd am arolygu'r arwyddion.<br><br>Pont y Traeth – adroddwyd nad yw'r gwaith o dorri'r coed wedi digwydd a bod angen i'r gwaith ddigwydd yn yr haf tra mae'r afon isel. Cynghorydd June Jones am ddilyn y mater yma i fyny hefo Gareth Roberts.<br><br>Soniwyd nad yw'r goeden sydd yn gwyro i'r ffordd ger Bwlch y Moch wedi cael sylw na'r twll archwilio. Clerc wedi adrodd am rain ar ôl y cyfarfod diwethaf.<br><br>Gadawodd Cynghorydd June Jones y cyfarfod. |
| 10. | Arian Cylch Trafod yr Alltwen | Gadawodd MLW a GE yr ystafell.<br><br>Ym mis Awst 2023 bu i Gylch Trafod yr Alltwen gau i lawr ac roedd arian dros ben yn y cyfrif - swm o £1,685.76. Fe gysylltodd GE, Is-gadeirydd y Cylch Trafod â JJ, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ar y pryd i ofyn a fyddai'n bosib rhoi'r arian yma i gadw yng nghyfrif banc y Cyngor Cymuned er mwyn gallu cau cyfrif banc y Cylch Trafod i lawr.<br><br>Penderfyniad Pwyllgor y Cylch Trafod ar y 31ain o Orffennaf oedd dyrannu'r arian fel a ganlyn:<br><br>£400.00 yr un i Neuadd Goffa Penmorfa, Canolfan Prenteg, Canolfan Pentrefelin a Chanolfan Gymdeithasol Golan a chyflwyno'r £85.76 oedd yn weddill i Gronfa Cae Chwarae Penmorfa. Gwnaed y penderfyniad ariannol ar sail y ffaith mai pobl o'r cymunedau hynny oedd y mwyafrif o aelodau'r Cylch Trafod.<br><br>RP yn cynnig ein bod yn talu'r arian allan fel yr uchod a JT yn eilio. |
| 11. | Cynllun Hyfforddi | Cyflwynwyd y Cynllun Hyfforddi. Awgrymwyd bod hyfforddiant yn cael ei gynnwys ar agenda a'i adolygu yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned. MLW yn cynnig a MJ yn eilio. |
| 12. | Gohebiaeth | a. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd a Diddymu) (Ardal |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dwyfor Rhif 8) 2024 - Rhybudd 1af<br>b. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad defnydd dros dro - Llwybr 18. Gyferbyn â Bryn yr Efail Uchaf hyd at Fryn 'Refail Isa'. Rhybudd 1af ac 2il. Dywedwyd nad yw'r rhan yma yn llwybr cyhoeddus ers degawdau. Does dim ffordd o ddod allan i'r lôn Rhoslan a does dim pontydd i allu croesi'r afon wrth fynd tuag at Dyddyn Felin. Clerc i adrodd am hyn i Lwybrau Cyhoeddus.<br>c. Cyngor Gwynedd - Uned Llwybrau - Cau Llwybr 112 ger Canolfan Gymdeithasol Golan. |
| 13. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Ambiwlans Awyr Cymru – Adolygiad Gwasanaeth EMRS. Rhannwyd. Y teimlad oedd mai rhyw fath o bropaganda oedd hwn ar gyfer symud lleoliad yr Ambiwlans Awyr. Mae'r ymgyrch yn erbyn cau lleoliad Dinas Dinlle a'r Trallwng yn parhau. Rhannwyd linc i'r ddeiseb gyda phawb mis diwethaf.<br>b. Parc Cenedlaethol Eryri – Dod yn Aelod o'r Parc Cenedlaethol – Rhannwyd.<br>c. IRPW – Cwestiynau ac Atebion. Rhannwyd.<br>ch. IRPW – Trefniadau gweithio gartref. Rhannwyd.<br>d. Unllais Cymru – Canllaw recriwtio a chadw Clercod. Rhannwyd.<br>dd. Unllais Cymru - Canllawiau Gweithio'n Ddigidol. Eglurodd y Clerc y bydd angen ail ymweld â'r ddogfen yma pan fydd y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i allu cynnig cyfarfodydd aml-leoliad.<br>e. Hyfforddiant Unllais Cymru - Rhannwyd |
| 14. | Cynllunio | Rhestrau: 29/4, 6/5, 13/5, 20/5<br><br>Ceisiadau Cynllunio:<br><br>**Rhif Cais:**NP2/16/T171A<br>**Lleoliad:**3 London Road, Garndolbenmaen, LL51 9NZ<br>**Disgrifiad:** Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allan i'r edrychiad cefn. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**Rhif Cais**:NP2/16/442<br>**Lleoliad:** Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen, LL51 9AX<br>**Disgrifiad:** Creu cyswllt llwybr trwy goetir i gynnwys llwybrau pren uchel, cyferbwyntiau, meinciau paneli a dehongli, lloches a portaloo. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae pryderon enfawr am y cais yma. Y penderfyniad oedd gwrthwynebu'r cais yma am y rhesymau canlynol:<br>• Diffyg parcio<br>• Risg Tân<br>• Archwiliad safle wedi'i wneud ym mis Chwefror<br>• Diffyg ymgynghoriad gyda chymdogion<br>• Mae'n or-ddatblygiad yng nghefn gwlad.<br>• Y ffordd i Gwm Pennant yn gul – mae yna beryg i ddamweiniau ddigwydd.<br>• Yr effaith negyddol all gael ar bobl leol, diwylliant ac iaith yr ardal.<br>Clerc i adrodd yn ôl yn gwrthwynebu'r cais ac yn adrodd am y pryderon uchod ac i ofyn a yw'r swyddog cynllunio wedi gwneud ymweliad safle. |
| 15. | Materion Ariannol | <u>Ceisiadau am arian:</u><br><br>Ysgol y Gorlan, Tremadog - Penderfynwyd talu £260.00 allan o Gronfa'r Cadeirydd tuag at gostau mynediad i'r Maes ar y ddau ddiwrnod maent yn cystadlu. MJ yn cynnig ac IE yn eilio. Ni fu i MLW gymryd rhan yn y drafodaeth yma.<br><br><u>Monitro'r gyllideb</u> : Dim gorwariant<br><br><u>Biliau i'w talu</u><br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.80<br>Veolia = £83.11<br>HSBC = £8.00<br>ICO = £60.00<br>Madog Gardencare = £220.00<br><br><u>Ychwanegwyd:</u><br><br>Neuadd Garndolbenmaen = £25.00 (Ffi o logi'r Neuadd ar gyfer y cyfarfod blynyddol)<br><br><u>Derbyniadau:</u> Dim<br><br><u>Balansau Cyfrifon Banc:</u><br><br>- Cadw: £38,304.37<br>- Cyfredol: £4,143.33 |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | Cais Cynllunio<br>Llongyfarch Ysgol y Gorlan<br>Llwybr Golan |
| | Cyfarfod Nesaf | Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar yr 11eg o Orffennaf oherwydd yr Etholiad sydd yn cael ei gynnal ar y 4ydd. |